SKAPW94

Rheoli cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â datblygu ac adolygu'r cynllun gweithredol a rheoli'r newidiadau a ddaw yn sgil hynny; ac yna sicrhau bod gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad yn cael eu rhoi ar waith.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae
2. rheoli newid yn y ddarpariaeth chwarae

Mae'r safon hon ar gyfer unigolyn sy'n gweithio ym maes gwaith chwarae, ac sy'n rheoli amryw o safleoedd traws-sector; unigolyn sy'n gweithio mewn rôl sy'n cynnwys rheoli nifer o leoliadau gwaith chwarae sydd â'r nod pennaf o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc  chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Byddant yn gyfrifol am redeg y lleoliadau gwaith chwarae hyn, ac yn gyfrifol am staff niferus a'u lles.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer y ddarpariaeth chwarae**

1. adolygu a diweddaru eich **cynllun gweithredol** i adlewyrchu strategaeth, polisïau, gweithdrefnau a gwerthoedd eich sefydliad
2. cyfathrebu wrth **eraill** beth yw swyddogaeth a phwysigrwydd y **cynllun gweithredol**
3. casglu adborth gan **eraill** a dadansoddi'r wybodaeth
4. sefydlu unrhyw **newidiadau** o ran **targedau a deilliannau** ar gyfer y ddarpariaeth chwarae
5. cyd-drafod pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r **newidiadau** arfaethedig i'r **targedau a deilliannau** er mwyn cefnogi'r cynllun gweithredol
6. dyrannu **adnoddau** i gyflawni'r **newidiadau** arfaethedig i'r **targedau a deilliannau** er mwyn cefnogi'r **cynllun gweithredol**
7. casglu gwybodaeth am weithrediad eich **cynllun gweithredol**
8. rhoi cymorth i **eraill** rydych yn gyfrifol amdanynt yn ôl yr angen

**Rheoli newid yn y ddarpariaeth chwarae**

9. cyfathrebu wrth **eraill** yr angen am y newid arfaethedig a'i fanteision
10. cynllunio a chyd-drafod gydag **eraill** er mwyn cytuno pwy sy'n gyfrifol am reoli newid
11. rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â newid yn eich maes cyfrifoldeb
12. cefnogi pobl **eraill** sy'n gysylltiedig â'r broses
13. monitro cynnydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl **eraill** sy'n gysylltiedig â'r broses

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gweithredol ar gyfer y ddarpariaeth chwarae**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi.
2. theori ac arferion cynllunio gweithredol, fel maen nhw'n berthnasol i gyd-destun gwaith chwarae
3. sut i nodi'r prif **dargedau a deilliannau** y dylai **cynllun gweithredol** fynd i'r afael â nhw
4. y mathau o **gynlluniau gweithredol** a'u **swyddogaethau** a'u pwysigrwydd
5. strategaethau ar gyfer cyfathrebu a negodi ag **eraill**
6. sut i werthuso'r dulliau gorau o gasglu adborth gan **eraill**
7. sut i ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd o'r adborth
8. sut i adolygu **cynllun gweithredol**
9. y **gyrwyr** a all ddylanwadu ar eich **cynllun gweithredol**
10. sut i osod nodau realistig ar gyfer gwneud y newidiadau a nodwyd ar gyfer **targedau a deilliannau** y ddarpariaeth chwarae
11. sut i nodi, meintioli a dyrannu'r **adnoddau** sydd eu hangen i gefnogi **cynllun gweithredol** ar gyfer y ddarpariaeth chwarae
12. pam mae monitro a gwerthuso yn bwysig i roi eich **cynllun gweithredol** ar waith
13. pam ei bod yn hanfodol i chi wneud addasiadau i **gynllun gweithredol** er mwyn cymryd ystyriaeth o'ch gwaith monitro a gwerthuso
14. y mathau o gymorth y gall fod eu hangen ar **eraill**

**Rheoli newid yn y ddarpariaeth chwarae**

15. theori ac arferion rheoli newid, fel maen nhw'n berthnasol i ddarpariaeth chwarae
16. pwysigrwydd cyfathrebu gydag **eraill** yr angen am y newid arfaethedig a'i fanteision
17. sut i rymuso **eraill** i gyfrannu at y broses o newid a pham mae hyn

yn bwysig
18. rhwystrau posibl i newid a sut i fynd i'r afael â'r rhain yn eich sefydliad
19. dulliau o fonitro cynnydd a pham ei bod yn bwysig i roi gwybod i **eraill**
20. mathau o gymorth y gall fod eu hangen ar bobl yn ystod cyfnod o newid

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Cynllun gweithredol** *(o leiaf 5 allan o 7)*
1. darparu cyfleoedd i chwarae
2. lefelau staffio
3. amseroedd a dyddiadau agor
4. gofal ac amddiffyn
5. amrywiaeth a chynhwysiant
6. marchnata a hyrwyddo
7. gweithio mewn partneriaeth

**Eraill**
1. plant a phobl ifanc
2. rhieni a/neu ofalwyr
3. staff
4. pobl allanol

**Newidiadau** *(o leiaf 4 allan o 6)*
1. i'r ddarpariaeth ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae a mannau chwarae ynddyn nhw
2. mewn perthynas â gofal ac amddiffyn
3. mewn perthynas â chynhwysiant
4. mewn perthynas â marchnata a hyrwyddo
5. mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth
6. mewn perthynas ag ymateb i ymddygiad

**Targedau a deilliannau**
1. darparu lleoliadau gwaith chwarae a mannau chwarae ynddyn nhw
2. gofal ac amddiffyn
3. cynhwysiant
4. marchnata a hyrwyddo
5. gweithio mewn partneriaeth

**Adnoddau**
1. pobl
2. cyllid
3. amser
4. cyfleusterau ac offer

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**Targedau a deilliannau**

1. darparu lleoliadau gwaith chwarae a mannau chwarae ynddyn nhw
2. gofal ac amddiffyn
3. cynhwysiant
4. marchnata a hyrwyddo
5. gweithio mewn partneriaeth

**Cynllun gweithredol**

1. darparu cyfleoedd i chwarae
2. lefelau staffio
3. amseroedd a dyddiadau agor
4. gofal ac amddiffyn
5. amrywiaeth a chynhwysiant
6. marchnata a hyrwyddo
7. gweithio mewn partneriaeth

**Eraill**

1. plant a phobl ifanc
2. rhieni a/neu ofalwyr
3. staff
4. pobl allanol

**Gyrwyr**

1. deddfwriaeth
2. cymdeithasol a chymunedol
3. gwleidyddol
4. gwleidyddol
5. amgylcheddol
6. technolegol
7. ymchwil cyfoes

**Adnoddau**

1. pobl
2. cyllid
3. amser
4. cyfleusterau ac offer

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

**Egwyddorion Gwaith Chwarae**

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfol a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.

2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.

3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.

4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.

5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.

6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae ac hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.

8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae.  Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwylio'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

**Darpariaeth chwarae**
Lleoedd sy'n cael eu ffurfio gan oedolion lle gall plant a phobl ifanc chwarae.

**Man chwarae**
Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

**Lleoliad gwaith chwarae**
Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

**Staff**
Y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

SKAPW94

# Rheoli cynlluniau gweithredol ar gyfer darpariaeth chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Chwefror 2016 |
| **Indicative Review Date** | Ebrill 2021 |
| **Dilysrwydd** | ArHynOBryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAPW17 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus; Lles a Datblygiad Plentyn; Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd; Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | Rheoli; cynlluniau gweithredol; lleoliad gwaith chwarae; newid |